Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

# Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl (Rhan-Amser)

Mae materion iechyd meddwl yn y gweithle yn bodoli ac yn effeithio ar bob unigolyn. Bellach, yn fwy nag erioed, anogir busnesau i berchnogi lles gweithwyr a gallwn eich helpu i gyflawni hyn.

Mae'r cwrs yn cwmpasu cynnwys cyrsiau Cymorth Cyntaf Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer Iechyd Meddwl ac yn ymgorffori'r cynllun gweithredu cymorth cyntaf ar gyfer iechyd meddwl a sut i weithredu diwylliant iechyd meddwl cadarnhaol yn y gweithle. Bydd dysgwyr yn ennill y wybodaeth i nodi pryd y gallai fod gan berson gyflwr iechyd meddwl ac yn gwybod i ble y gallant fynd i gael help.

## Gofynion Mynediad

Mae'r cymhwyster hwn ar gael i ddysgwyr 18 oed neu'n hyn. Rhaid bod gan ddysgwyr y sgiliau llythrennedd i allu darllen a hunanddysgu'r llawlyfr cyfeirio ac adnoddau ychwanegol.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer hyfforddwyr, aseswyr a goruchwylwyr sydd am godi ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddwl yn y gweithle.

## Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu'r pynciau a ganlyn:

– Beth yw Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl
– Nodi cyflyrau iechyd meddwl
– Rhoi cyngor a dechrau sgwrs
– Cynllun gweithredu Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl
– Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl yn y gweithle
– Straen, pryder, iselder ysbryd a hunanladdiad
– Anhwylderau bwyta
– Seicosis

– Anhwylder personoliaeth
– Sgitsoffrenia
– Hunan-niweidio
– Cyffuriau ac alcohol
– PTSD
– Anhwylder deubegwn

## Asesiad

Asesir y cymhwyster trwy drafodaeth broffesiynol gyda’r Hyfforddwr / Asesydd a gwelir tystiolaeth o alwad fideo wedi’i recordio.

### DULL ASTUDIO

OL

### LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

### HYD Y CWRS

Undydd

### FFIOEDD

19/20 fees: £220